Bwrdd Taliadau Cynulliad
Cenedlaethol Cymru
—
Remuneration Board of the
National Assembly for Wales

13 Gorffennaf 2016

Annwyl Aelod Cynulliad,

Hoffwn eich llongyfarch ar gael eich ethol gan bobl Cymru i'r pumed Cynulliad. Bydd ein gwlad yn wynebu problemau sylweddol yn ystod y blynyddoedd nesaf ac, fel Cadeirydd y Bwrdd Taliadau, rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi wrth i chi fynd i'r afael â'r problemau hyn ar ran pobl Cymru.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n sefydlu'r Bwrdd yn nodi ein bod yn gyfrifol am sicrhau bod yr adnoddau ariannol ar gael i ganiatáu i chi ymgymryd â'ch gwaith fel aelodau etholedig. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y cymorth a gaiff ei gynnig i chi'n adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd eich swyddogaethau chi fel Aelodau'r Cynulliad.

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu'n rheolaidd â chi a'ch staff i sicrhau bod ein Penderfyniad yn parhau'n addas a'n bod yn cyflawni'n dyletswyddau. Rydym wedi gwerthfawrogi cyfarfod â nifer ohonoch chi'n anffurfiol ac yn gobeithio bod yn bresennol yng nghyfarfodydd eich grŵp plaid dros y misoedd nesaf. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â chi dros y pum mlynedd nesaf.

Heddiw, rydym yn ysgrifennu at yr holl Aelodau i ofyn am eich barn am ddau fater gwahanol, sef cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau a gwariant ar lety preswyl. Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer. Byddwn yn penderfynu'n derfynol ar y materion hyn ym mis Medi ac felly gofynnwn i chi ateb erbyn 16 Medi.

**Cyflogau ychwanegol i gadeiryddion pwyllgorau**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6331
E-bost/Email: Remuneration@assembly.wales
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Cafodd cadeiryddion pwyllgorau'r pedwerydd Cynulliad gyflog ychwanegol. Aeth y Bwrdd Taliadau blaenorol ati i ymchwilio'n eang cyn penderfynu ar gyflog priodol i gadeiryddion pwyllgorau, gan gynnwys ystyried cyflogau cymharol mewn deddfwrfeydd eraill a drwy sector cyhoeddus Cymru. Ystyriwyd hefyd astudiaeth gan yr HayGroup yn dadansoddi pwysau swyddi cadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad. Ar ddiwedd y pedwerydd Cynulliad, roedd cadeiryddion pwyllgorau'r Cynulliad yn cael y cyflogau ychwanegol a ganlyn.

| Pwyllgorau | Cyflog ychwanegol |
|---|---:|
| Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth; Cyfrifon Cyhoeddus; Cyllid; Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol | £13,000 |
| Deisebau; Safonau | £8,660 |

**Y cynnig**

Argymhelliad y Bwrdd blaenorol oedd y dylai'r cyflogau hyn barhau os nad oedd unrhyw newidiadau sylweddol yn strwythur y pwyllgorau yn y pumed Cynulliad. Rydym yn fodlon bod y cyflogau uchod yn dal yn briodol ac yn debyg i'r cyflogau a gaiff cadeiryddion pwyllgorau deddfwrfeydd eraill y DU. Gan hynny rydym yn cynnig eu bod yn aros yr un fath. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi dweud y bydd cyfrifoldebau'r Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn newydd yr un mor arwyddocaol â chyfrifoldebau'r Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth eraill. Oherwydd hyn, rydym yn cynnig bod cadeirydd y pwyllgor hwn yn cael cyflog ychwanegol ar yr haen uchaf.

Yn unol â chyflogau'r Aelodau a'r Deiliaid Swyddi, caiff cyflogau ychwanegol cadeiryddion y pwyllgorau eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn ôl y newid yn Enillion Canolrif ASHE yng Nghymru, rhwng mis Mawrth y flwyddyn honno a mis Mawrth y flwyddyn flaenorol.

Gan ystyried strwythur newydd y pwyllgorau, byddem hefyd yn croesawu'ch sylwadau ar y ffaith bod dwy haen i'r cyflog ychwanegol ar hyn o bryd: a yw hynny'n parhau'n addas i'r diben?

Ar ôl i'r Bwrdd benderfynu ar gyflog Cadeiryddion y pwyllgorau, bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ysgrifennu atynt i gadarnhau eu cyflog, a chaiff hwnnw ei ôl-ddyddio i'r dyddiad y cawsant eu hethol i'w swydd.

**Gwariant ar lety preswyl**

Gall yr Aelodau hawlio taliadau am y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth aros dros nos yn rhywle heblaw eu prif gartref er mwyn ymgymryd â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r Gwariant ar Lety Preswyl wedi'i seilio ar dair 'ardal' wahanol:

- Ardal allanol – o fewn ffiniau rhanbarthau etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru;
- Ardal ganol – etholaethau Gŵyr, Castell-nedd, Dwyrain Abertawe a Gorllewin Abertawe;
- Ardal fewnol – ac eithrio'r etholaethau hynny yn yr ardal agosaf, yr ardal o fewn ffiniau rhanbarthau Gorllewin, Canol a Dwyrain De Cymru.

Mae'r lwfans sydd ar gael i'r Aelodau hynny sy'n byw'n bennaf yn yr ardal allanol yn cael ei rannu'n bedwar categori. Ym mhob achos, ni chaiff neb fwy nag £8,820 y flwyddyn:

- Opsiwn A – rhentu eiddo wedi'i ddodrefnu yng Nghaerdydd;
- Opsiwn B – ad-dalu treuliau'n ymwneud ag eiddo yng Nghaerdydd a ddefnyddir gan Aelod (ee os yw Aelodau yn berchen ar ail gartref yng Nghaerdydd);
- Opsiwn C – cost aros dros nos yng Nghaerdydd; a
- Opsiwn Ch – ad-dalu rhent neu daliadau morgais yn unol â'r rheolau a oedd yn gymwys yn 2011.[1]

Os yw prif gartref Aelod yn yr 'ardal ganol,' gall hawlio costau aros dros nos yng Nghaerdydd hyd at uchafswm o £3,420 y flwyddyn. Os yw'r prif gartref yn yr 'ardal fewnol', gall hawlio costau aros dros nos o dan amgylchiadau eithriadol, ond ni all hawlio unrhyw gostau eraill yn ymwneud â llety preswyl.

Mae'r Penderfyniad hefyd yn darparu ar gyfer achosion 'ffiniol,' a gall y tîm Cymorth Busnes i Aelodau gytuno, "pan fo hynny'n rhesymol", fod prif gartref Aelod mewn 'ardal' wahanol i'r hyn a nodir yn y Penderfyniad.

**Y cynnig**

Mae'r Penderfyniad wedi'i seilio ar leoliad prif gartref yr Aelodau, yn hytrach na'u hetholaeth/rhanbarth. Ar hyn o bryd, nid yw'n darparu i ddigolledu Aelodau drwy'r lwfans Gwariant Llety Preswyl os nad yw eu prif gartref yng Nghymru. Mae'r Penderfyniad, felly, wedi'i seilio ar y dybiaeth mai yng Nghymru y bydd prif gartref yr Aelodau i gyd. Fodd bynnag, ni nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2004, nac unrhyw ddeddfwriaeth arall, fod yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad fyw mewn unrhyw leoliad penodol naill ai pan gânt eu hethol neu wedyn.

---

[1] Mae'r Opsiwn hwn yn gymwys dim ond i'r Aelodau hynny (a) a gafodd eu hethol cyn etholiad 2011 a (b) sydd wedi parhau'n Aelodau am gyfnod di-dor ers eu hethol y tro cyntaf (diystyrir y cyfnod pan oedd y Cynulliad wedi'i ddiddymu).

Fel Bwrdd, mae'n ofynnol inni sicrhau bod gan yr Aelodau yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u gwaith. Mae dyletswydd gyfreithiol arnom i roi system o gymorth ariannol ar waith sy'n caniatáu iddynt gyflawni eu gwaith yn effeithiol.

Oherwydd hyn, rydym yn cynnig newid y Penderfyniad fel bod Aelodau nad yw eu prif gartref yng Nghymru yn gallu hawlio costau llety preswyl. Bydd y Bwrdd yn newid y Penderfyniad drwy ehangu'r Ardal Allanol i'r DU gyfan.

Wrth wneud hyn, bydd egwyddorion rhesymoldeb, atebolrwydd a gwerth am arian yn cael eu cymhwyso, yn unol â phob agwedd ar ein Penderfyniad ac fel sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd y Bwrdd.

Mae'n ofynnol inni ymgynghori â'r Aelodau ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Penderfyniad a byddem yn croesawu'ch sylwadau ar y mater hwn erbyn 16 Medi.

Gwnaed nifer o benderfyniadau eraill yng nghyfarfod y Bwrdd ar 6 Gorffennaf 2016. Penodwyd Bwrdd Pensiynau Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn ffurfiol. Bydd Tîm Pensiynau'r Comisiwn yn cyhoeddi enwau aelodau'r Bwrdd Pensiwn yn fuan, gan gynnwys y Cadeirydd annibynnol sydd newydd ei benodi.

Cytunwyd ar rolau a chyfrifoldebau llofnodwyr perthnasol i'r Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad newydd. Mae'r rhain wedi'u sefydlu mewn Memorandwm Dealltwriaeth rhwng y Bwrdd Taliadau, y Bwrdd Pensiynau a Chomisiwn y Cynulliad. Cytunwyd hefyd ar y tybiaethau demograffig i'w defnyddio i bennu terfyn costau'r cyflogwr mewn perthynas â'r cynllun pensiwn.

Cytunodd y Bwrdd hefyd ar ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16, a gaiff ei gyhoeddi'n fuan.

Os hoffech drafod y mater hwn â mi neu unrhyw aelod arall o'r Bwrdd, mae croeso ichi gysylltu â mi drwy'r ysgrifenyddiaeth.

Cofion gorau,

**Y Fonesig Dawn Primarolo**
**Cadeirydd / Chair**
**Bwrdd Taliadau/Remuneration Board**